Cyngor Sir Ceredigion **Gofal Cymdeithasol**

# Gweithio Gyda Chi

**…yn gofalu i wneud gwahaniaeth**

# Print Bras neu fformatau eraill ar gael drwy ofyn amdanynt

**ffoniwch**

 01545 574000



**neu Ebostiwch**
**cyswllt-socservs@ceredigion.gov.uk**

## Oriau Swyddfa'r Porth Gofal

**Dydd Llun – Dydd Iau: 8.45 y.b. – 5.00 y.p.**

**Dydd Gwener: 8.45 y.b. – 4.30 y.p.**

Gellir gweld gwybodaeth ynglŷn â gwasanaethau a ddarparir gan Gyngor Sir Ceredigion ar ein gwefan
**www.ceredigion.gov.uk**

Adolygwyd Rhagfyr 2019

# Gweithio gyda Chi

## Gwasanaethau i Oedolion a Phlant

Nôd y Gofal Cymdeithasol Ceredigion yw gweithio gyda chi i sicrhau eich bod yn cael y gofal, y gwasanaeth a'r cymorth cywir y mae ei angen arnoch chi neu rywun yr ydych yn eu hadnabod.

Rydym bob amser yn ceisio darparu gwasanaeth pan fydd angen help neu gymorth ar rywun ar fyrder ac rydym bob amser yn ofalus na fyddwn yn peryglu ansawdd y gofal a ddarparwn.

Rydym yn darparu gwasanaethau i:

- Blant a theuluoedd mewn angen
- Plant Anabl
- Plant sy'n Derbyn Gofal
- Y rhai sy'n Gadael Gofal
- Pobl ifanc sydd mewn perygl o gyflawni troseddau neu sy'n ymwneud â'r system cyfiawnder troseddol.

- Mabwysiadu
- Gwasanaeth Lleoli Teuluoedd (Gofal Maeth)
- Pobl Hŷn
- Pobl Hŷn sydd â phroblemau Iechyd Meddwl
- Pobl sy'n dioddef nam Corfforol neu Synhwyraidd
- Pobl sy'n dioddef problemau Iechyd Meddwl
- Gofalwyr
- Pobl sydd ag Anawsterau Dysgu
- Pobl sy'n cael eu heffeithio gan HIV/AIDS
- Pobl sy'n dioddef salwch terfynol

- Pobl sy’n cael eu Rhyddhau o’r Ysbyty
- Pobl y mae angen cymorth sy’n ymwneud â Thai arnynt
- Pobl sy’n cael eu heffeithio gan gamddefnyddio sylweddau

## Byddwn yn:

- Gwrando ar yr hyn y byddwch yn ei ddweud am eich sefyllfa a’ch amgylchiadau
- Egluro’r broblem yn eich barn chi a’r hyn yr hoffech ei weld fel yr ateb
- Eich hysbysu am ystod y posibiliadau sydd ar gael i’ch helpu i fod yn fwy annibynnol
- Dweud wrthych yr hyn y credwn y gallwch ei gyflawni i sicrhau eich bod yn fwy annibynnol cyn gynted ag y bo modd, a sut y gallwn gydweithio
- Dod yn ôl i drafod materion gyda chi pan fydd angen rhagor o wybodaeth arnoch
- Llunio Cynllun Gofal i adlewyrchu’r hyn a drafodwyd yn eich Asesiad gan nodi manylion y canlyniadau a’r newid y disgwyliwn ei weld o ganlyniad i’r gwasanaethau yr oeddem wedi cytuno eu darparu
- Cynnal Adolygiad o’ch Cynllun Gofal a thrafod hyn gyda chi os ydych yn fodlon â’r gwasanaethau ac os bodlonwyd y canlyniadau y cytunwyd arnynt
- Eich hysbysu a godir tâl am y gwasanaeth/au neu beidio a sut fydd hyn yn cael ei gyfrifo
- Ymateb i unrhyw gwynion sydd gennych
- Rhoi cyngor a gwybodaeth berthnasol ynghylch ble y gellir cael help neu gymorth arall, yn enwedig os na allwn eich helpu

## Gofynnir i Chi:

- Ddarparu manylion sylfaenol am eich hun, neu'r unigolyn yr ydych yn ffonio ar eu rhan:
  e.e. Enw, Dyddiad Geni, Cyfeiriad, Rhif Ffôn, Meddyg Teulu, Perthynas Agosaf, Cefndir Ethnig, Crefydd ac ati
- Dweud popeth wrthym sy'n berthnasol i'ch amgylchiadau chi/yr unigolyn dan sylw
- Ateb unrhyw gwestiynau y bydd angen i ni eu gofyn efallai, er mwyn i ni fod yn eglur ynghylch sut y gallwn helpu
- Llenwi a llofnodi unrhyw ffurflenni sy'n berthnasol i'r gwasanaethau a fydd yn cael eu darparu
- Pan godir tâl am wasanaeth, talu am wasanaethau, gan ddibynnu ar eich amgylchiadau ariannol

## Gyda'n gilydd, dylem:

- Geisio rhannu gwybodaeth
- Bod yn agored ac yn onest
- Trafod problemau a materion pan fyddant yn codi
- Cytuno na fyddwn efallai yn cyd-fynd ynghylch rhai materion

Pan fydd llawer o alw am wasanaethau, efallai na fyddwn yn gallu darparu lefel y gwasanaethau y mae pobl yn eu disgwyl bob amser ac mewn achosion llai brys, nid ydym yn gallu ymateb mor gyflym ag y byddai pobl yn ei ddymuno bob amser.

# Eich hawliau

Os byddwch yn cael cyswllt gyda'r Gofal Cymdeithasol ar unrhyw adeg yn ystod eich bywyd am ba reswm bynnag, gallwch ddisgwyl cael eich trin gydag urddas a pharch.

Yn ogystal, gallwch ddisgwyl:

**Fel plentyn:**

- Cael eich diogelu rhag niwed
- Cael gofal gan staff a chyngor a help pan fydd ei angen arnoch
- Cael y cyfle i fynegi eich barn am bob penderfyniad sy'n ymwneud â'ch lles a'ch dyfodol

**Fel oedolyn:**

- Bod eich safbwynt, eich credoau a'ch dewisiadau yn cael eu hystyried yn ystod pob penderfyniad a wneir am eich lles
- Cyfrinachedd yn ystod eich cyswllt gyda ni

**Fel rhiant:**

- Bod yn gyfrifol am benderfyniadau a wneir am eich plentyn
- Cael gwybodaeth lawn am unrhyw gamau sy'n cael eu cymryd sy'n effeithio ar eich plentyn

**Fel gofalwr:**

- Gwasanaethau sy'n ymateb i'ch anghenion mewn ffordd sensitif
- Ymwneud â'r broses o ddatblygu gwasanaethau
- Cael cyngor a chymorth
- Gwybodaeth am adnoddau lleol a chenedlaethol

**Fel Gofalwr Maeth:**

- Gwybodaeth, cymorth a chyngor pan fydd ei angen arnoch
- Bod eich safbwyntiau yn cael eu hystyried
- Ymwneud â'r cynlluniau ar gyfer y plant neu'r bobl ifanc yn eich gofal

**Fel sefydliad preifat neu Wirfoddol:**

- Cael eich parchu fel cydweithiwr proffesiynol
- Y wybodaeth ddiweddaraf am ein polisïau a’n gweithgareddau
- Contractau wedi’u trafod

**Ac yn olaf:**
Mae’n staff yn bwysig i ni – a fyddech gystal â’u trin fel yr hoffech iddyn nhw eich trin chi.

**Mae gennych yr hawl i fanteisio ar unrhyw wybodaeth sydd gennym amdanoch a, phan fo hynny’n briodol, sicrhau ei bod yn cael ei chywiro neu ei dileu.**

**Caniatâd**

**I Oedolion sy’n 18 oed ac yn hŷn:**
Os ydych yn ffonio ar ran rhywun arall, mae’n bwysig iawn eu bod yn ymwybodol o hyn a’ch bod yn cael eu caniatâd llawn cyn i chi ffonio. Gofynnir i chi gadarnhau hyn pan fyddwch yn cysylltu a ni. Yr unig eithriad i hyn fyddai os allai gwneud hynny roi’r oedolyn mewn perygl pellach.

**I Blant dan 18 oed:**
Os ydych yn ffonio ar ran rhywun arall, mae’n bwysig iawn eich bod yn cael caniatâd rhiant/rhieni y plentyn/plant. Yr unig eithriad i hyn fyddai os allai gwneud hynny roi’r plentyn/plant mewn perygl pellach.

**Mae Cyngor Sir Ceredigion yn llwyr gefnogi egwyddor cydraddoldeb ac mae'n cydnabod pwysigrwydd cynnig cyfleoedd manteisio teg ac mae'n hyrwyddo cyfle cyfartal i'r holl ofalwyr a defnyddwyr gwasanaeth.**

## Gwasanaeth Eiriolaeth

Mae Gwasanaeth Eiriolaeth ar gael a lle bo hynny'n bosib, byddwn yn trefnu i rywun eich cynorthwyo i gyflwyno eich barn wrth i chi ymdrin â ni os nad yw'n bosib i chi wneud hynny eich hun ac os nad oes gennych deulu neu ffrindiau i'ch helpu.

**Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol Ceredigion (CIPA)**
Gall y gwasanaeth hwn eich cynorthwyo chi (neu eich gofalwr) os ydych chi dros 18 oed, yn byw yng Ngheredigion a'ch bod yn derbyn asesiad neu adolygiad ar hyn o bryd o'ch anghenion gofal a chymorth neu fod gennych bryder o ran diogelu.

**0800 206 1387**

Bydd **Eiriolaeth Gorllewin Cymru'n** darparu Gwasanaeth Eiriolaeth Annibynnol o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl ar gyfer pobl yn y gymuned ac ar gyfer cleifion anffurfiol yn Ward Morlais, Ysbyty Glangwilli, Caerfyrddin.

**01437 762935**

www.advocacywestwales.org.uk

admin@advocacywestwales.org.uk

Mae **TGP Cymru** yn darparu help i blant a phobl ifanc er mwyn sicrhau y caiff eu hawliau eu parchu a'u lleisiau eu clywed. Gallant ddarparu gwybodaeth, eiriolaeth, cynrychiolaeth, cyngor a chefnogaeth.

**0808 1682599**

**01545 571865**

midandwestwales@tgpcymru.org.uk

## Rhannu Gwybodaeth a Chyfrinachedd

Bydd unrhyw wybodaeth y byddwch yn ei rhoi i ni yn cael ei chadw'n gyfrinachol. Ni fyddwn yn datgelu eich gwybodaeth i unrhyw un nad ydynt yn ymwneud â'ch gofal heb eich caniatâd (oni bai bod yn rhaid i ni wneud hynny yn unol â'r gyfraith neu os ceir amgylchiadau arbennig, fel eich diogelwch a/neu ddiogelwch eraill).

## Argyfyngau

Os bydd angen help arnoch ar frys y tu allan i oriau agor y Porth Gofal (fel y nodwyd tu fewn clawr y daflen hon), cysylltwch â'n Tîm Argyfwng Tu Allan i Oriau Swyddfa ar:

**0300 4563554**

# Cyflwyniadau/Cwynion/Sylwadau

Os nad ydych yn fodlon ag unrhyw rai o’n gwasanaethau, neu â’r ffordd yr ydych wedi cael eich trin, dylech drafod hyn gyda Rheolwr y Tîm y mae gennych gyswllt ag ef yn gyntaf. Mawr obeithiwn y bydd modd datrys y broblem ar yr adeg hon.

Os nad ydych yn fodlon o hyd fodd bynnag, gallwch fynd â’r mater hwn ymhellach trwy wneud cwyn ffurfiol, gan bod gan Gofal Cymdeithasol Ceredigion weithdrefn gwyno.

Os ydych yn credu ein bod wedi gwneud rhywbeth yn dda, gallwch ddweud hynny wrthym hefyd.

Gofynnwch i’r **Gofal Cymdeithasol** am daflen ‘A ydym yn llygad ein lle? A oes gennych unrhyw Sylwadau, Cwynion neu Ganmoliaeth?’

Mae taflenni eraill yn rhoi manylion am y gwahanol wasanaethau a gynigir gan Gofal Cymdeithasol Ceredigion ar gael drwy ofyn amdanynt o’r Porth Gofal. Os ydych am ragor o wybodaeth, ffoniwch ar:

**01545 574000**

Byddem yn croesawu unrhyw sylwadau sydd gennych ynghylch cynnwys a chynllun y daflen hon, yn ogystal â'r gwasanaeth yr ydych wedi ei dderbyn. Mae'ch safbwyntiau chi yn bwysig er mwyn sicrhau ein bod yn gallu monitro a gwella'r ansawdd yn ôl yr angen. A fyddech gystal â mynd ati i lenwi'r canlynol:

Enw: ………………………………………………………………………….

Cyfeiriad: …………………………………………………………………….

…………………………………………………………………………………...

…………………………………………………………………………………...

Rhif Ffôn: ………………………………   Dyddiad: ………………………

Cafwyd taflen gan: ……………………………………………………..……

Fy nghanmoliaeth neu fy nghwyn:

……………………………………………………………………………….

……………………………………………………………………………….

……………………………………………………………………………….

……………………………………………………………………………….

……………………………………………………………………………….

(A fyddech gystal â pharhau ar dudalen ar wahân os bydd angen mwy o le arnoch)



Dylech anfon y dudalen hon at:

Porth Gofal
Canolfan Rheidol
Rhodfa Padarn
Llanbadarn Fawr
Aberystwyth
SY23 3UE

**Diolch am eich sylwadau**